



Gwasanaeth Tân ac Achub  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales  
Fire and Rescue Service

# CALON

# TÂN

MAI  
2024

PRIDE  
ABERTAWE  
TUDALEN 20



## CONFOI MWYAF ERIODED GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB Y DU

TUDALEN 16










RHYS FITZGERALD -  
MOUNT  
TUDALEN 7

HYFFORDDIANT  
DIOGELWCH DŴR  
TUDALEN 23

HYFFORDDI  
AMLASANTAETHOL  
TUDALEN 24



# CYNNWYS

	AILGYLCHU DILLAD	3
	CYFATHREBU'R RHANBARTHAU	4
	RHYS FITZGERALD - EVEREST	7
	CWRDD A'R TIM - ADRAN RISG GORFFORAETHOL	8
	DIGWYDDIADAU	13
	NEWYDDION GORSAFOEDD	14
	CONFOI WCRAIN	16
	BANNAU BRYCHEINIOG	18
	CANMOLIAETH YR UCHEL SIRYF	19
	PRIDE ABERTAWE	20
	HYFFORDDIANT	22
	HYFFORDDI AMLASANTAETHOL	24
	CHWARAEON A CHYMDEITHASU	26
	SWYDDI	28

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth ymateb brys i bron i 12,000 cilomedr sgwâr - bron i ddwy ran o dair o Gymru.

Dyma beth a'n cadwdd yn brysur y mis diwethaf:

<p><b>1582</b> </p> <p>Galwadau i'r Ganolfan Rheoli</p>	<p><b>677</b> </p> <p>Digwyddiadau a fynychwyd</p>	<p><b>31</b> </p> <p>O danau mewn adeiladau</p>	<p><b>301</b> </p> <p>O alwadau ffug</p>
<p><b>3</b> </p> <p>Anifail wedi'u Hachub</p>	<p><b>3</b> </p> <p>O ddigwyddiadau achub dwr</p>	<p><b>41</b> </p> <p>O wrthdrawiadau traffig ffyrdd</p>	<p><b>53</b> </p> <p>O achosion o roi cymorth i asiantaethau eraill</p>



## AILGYLCHU DILLAD

# DIWEDDARIAD PERFFORMIAD AILGYLCHU DILLAD ELUSEN Y DIFFODDWYR TÂN 2023-24

Ar draws y Deyrnas Unedig cododd Ailgyrchu Dillad Elusen y Diffoddwyr Tân ychydig dros £956,000, gan gasglu dros 4,700 tunnell o ddillad a'u hailddargyfeirio o safleoedd tirlenwi. Roedd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) yn gyfrifol am £42,955 o'r ffigur hwn gyda chyfanswm pwysau o 208,882kg, sy'n eithaf trawiadol!

Mae pob ceiniog sy'n cael ei chodi drwy roddion dillad yn helpu Elusen y Diffoddwyr Tân i barhau â'u gwaith yn cefnogi pob aelod o gymuned gwasanaethau tân y DU sy'n gwasanaethu/wedi ymddeol a'u teuluoedd.

Mae banciau dillad Elusen y Diffoddwyr Tân yn derbyn rhoddion drwy gydol y flwyddyn ac mae pob rhodd yn helpu i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl. Gellir dod o hyd i fanciau dillad Elusen y Diffoddwyr Tân mewn llawer o'n gorsafoedd tân, safleoedd cymunedol ac archfarchnadoedd, ac mae logo'r Elusen arnynt.

Bwriadu clirio wrth i ni nesáu at yr Haf? Dewch o hyd i'ch banc dillad agosaf a pha fath o decstilau sy'n cael eu derbyn [yma](#).



# CRIW HWLFFORDD YN CROESAWU'R CYNGHORYDD THOMAS TUDOR

Ddydd Mawrth 7 Mai, ymwelodd y Cynghorydd Thomas Tudor - cyn Gadeirydd Cyngor Sir Penfro - â Gorsaf Hwlffordd, ynghyd â Dirprwy

Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, y Cynghorydd John Davies, am daith o amgylch yr orsaf a'u peiriant tân newydd.

Rhoddodd aelodau'r criw gyflwyniad yn tynnu sylw at yr holl adnoddau sydd gan Orsaf Hwlffordd i'w cynnig i'r gymuned. Roedd y Cynghorydd Tudor yn awyddus i ddysgu popeth am y gwaith pwysig maen nhw'n ei wneud a chael gwell dealltwriaeth o'r heriau maen nhw'n eu hwynebu bob dydd.

Mwy o wybodaeth yma: [Haverfordwest crew welcomed Councillor Thomas Tudor \(mawwfire.gov.uk\)](#)



# GOGLEDD

# DIFFODDWR TÂN O LANIDLOES YN YMDDEOL AR ÔL 45 MLYNEDD O WASANAETH

Ddydd Mercher, 1 Mai, daeth criw Llanidloes at ei gilydd yng Ngorsaf Dân Llanidloes i ddathlu ymddeoliad Brian a'i noson ymarfer olaf.

On Wednesday, May 1st, the Llanidloes crew gathered at Llanidloes Fire Station to celebrate Brian's retirement and his final drill night.

Ymunodd Brian â Brigâd Dân Powys, fel yr oedd ar y pryd, ar 25 Ebrill 1979 ac ers hynny mae wedi dangos ymroddiad parhaus.

Dywedodd Martyn Field, Rheolwr yr Orsaf:

*"Mae Brian wedi rhoi gwasanaeth eithriadol i'r Gwasanaeth Tân ac Achub a'i gymuned. Mae'n hynod o brin cael rhywun yn gwasanaethu mor hir*

*â hyn a bydd Brian yn sicr yn gadael bwlch mawr ar ei ôl yng Ngorsaf Dân Llanidloes a bydd hiraeth mawr amdano.*

*Rydym i gyd yn dymuno'n dda iddo ar ei ymddeoliad ac yn diolch iddo am bopeth y mae wedi'i wneud yn ystod ei yrfa."*



# Y RHEOLWR GWYLFA STEVE AMOR YN YMDDEOL AR ÔL 35 MLYNEDD O WASANAETH

Ym mis Ebrill, ymddeolodd y Rheolwr Gwylfa Steve Amor o'i rôl yng Ngorsaf Dân Llanwrtyd ar ôl 35 mlynedd o wasanaeth ymroddedig

Ymunodd Steve â Brigâd Dân Powys, fel yr oedd ar y pryd, fel Diffoddwr Tân ym 1988, cyn cael ei ddyrchafu'n Ddiffoddwr Tân Arweiniol (Rheolwr Criw bellach) ym 1998 ac yn 2011 daeth yn Rheolwr Gwylfa'r Orsaf Dân.

Mae'r criw a phawb yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn diolch i Steve am ei wasanaeth a'i gyfraniad amhrisiadwy ac yn dymuno ymddeoliad hir a hapus iddo.



## HYFFORDDIANT TÂN CYDWEITHREDOL YN TATA STEEL

Yn ddiweddar, mae criw Port Talbot a Thîm Tân TATA Steel wedi ymrwmo i gytundeb hyfforddi cydweithredol newydd.

Unwaith y mis bydd y ddau griw yn ymuno â'i gilydd ac yn hyfforddi gyda'i gilydd. Mae hyn er mwyn paratoi criwiau'r Gwasanaeth a chriwiau TATA Steel yn well ar gyfer digwyddiadau gweithredol go iawn. Dywedodd Rheolwr Gorsaf Port Talbot a threfnydd y sesiynau hyfforddi newydd hyn, Spencer Lewis:

*"Rydw i wedi creu perthynas waith gyda TATA Steel ym Mhort Talbot a'u Thîm Tân, lle byddan nhw'n ymweld â Gorsaf Dân Port Talbot bob mis er mwyn hyfforddi gyda diffoddwyr tân o GTACGC*



*y maen nhw'n debygol o gwrdd â nhw, petai digwyddiad gweithredol o fewn awdurdod TATA Steel.*

*Byddwn yn hyfforddi gyda'n gilydd, yn ymarferol ac yn ddamcaniaethol, gan gwmpasu pynciau fel Cyfarpar Anadlu, Gwrthdrawiadau Traffig Ffyrdd, Cymorth Cyntaf Brys, Gweithrediadau Pwmpio, Ymarferion Pibellau, Clymau a Llinellau, a Deunyddiau Peryglus.*

*Bydd Thîm Tân TATA Steel yn eu tro yn rhannu eu 'Gwybodaeth Arbenigol' am safle TATA a'r risgiau cysylltiedig."*

Mae'n hanfodol bod yr ymarferiadau hyfforddi hyn yn cael eu cynnal fel bod criwiau'n barod i ymateb i argyfyngau ac yn deall y peryglon sy'n gysylltiedig â safle TATA Steel. Hoffem ddiolch i TATA Steel am eu cymorth, ac edrychwn ymlaen at yr ymarferiad hyfforddi fis nesaf.



## DIFFODDWR TÂN GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU AM DDRINGO EVEREST MEWN CIT DIFFODD TÂN LLAWN

Nid ar chwarae bach mae cyrraedd copa Everest - mynydd ucha'r byd - ac nid yw'n her y mae llawer o bobl yn fodlon mentro arni.

Nid yn unig mae Rhys Fitzgerald, Diffoddwr Tân Ar Alwad Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) yng Ngorsaf Dân Cydweli, am ymgymryd â'r dasg hynod anodd hon, mae hefyd yn anelu at fod y person cyntaf i wneud hynny mewn cit diffodd tân llawn.

Fel rhan o'i hyfforddiant i ddringo'r 8848m i gopa Everest yn 2025, mae Rhys wedi gosod cyfres o ddigwyddiadau ac amcanion iddo'u cyflawni.

Mae Rhys wedi dewis cefnogi'r elusennau canlynol:

**Elusen y Diffoddwyr Tân** - elusen sy'n darparu cymorth gydol oes i ddiffoddwyr tân sy'n gwasanaethu ac sydd wedi ymddeol, ac i'w teuluoedd.

**Mind** - sy'n darparu gwybodaeth, cefnogaeth ac ymgyrchoedd i bobl â phroblemau iechyd meddwl.

**The Nimsdai Foundation** - sy'n gweithio i glirio sbwriel sy'n cael ei adael ar fynyddoedd yn yr

Himalaya yn sgil teithiau blaenorol yn ogystal â chefnogi arwyr tawel y mynyddoedd, sef Porthorion Llwybr Base Camp Everest.

Bydd Rhys hefyd yn cyflawni dwy record byd fel rhan o'i anturiaethau trwy fod y person cyntaf i ddringo Ama Dablam ac Everest mewn cit diffodd tân llawn.



# Cwrdd a'r Tim

## ADRAN RISG GORFFORAETHOL

Mid and West Wales Fire and Rescue Service employs over 1,300 members of staff who deliver emergency response, public safety information, prevention and protection programmes and more to almost 12,000 square kilometres - almost two-thirds of Wales.

The Corporate Risk Department, based at the Service's Headquarters in Carmarthen, is responsible for providing advice and direction on six distinct subject areas including, Liability Claims and Litigation, Business Risk, Health and Safety, Insurance Management, Environmental Management and Sustainability, and Business Continuity & Security.



**Seamus Doyle**  
Rheolwr Sicrwydd Risg Gorfforaethol Dros Dro

Helô, Seamus ydw i, ac rwy'n gyfrifol am ddarparu cyngor ac arweiniad cymwys i holl gyflogeion y Gwasanaeth ar bob mater Risg Gorfforaethol, gan gynnwys materion iechyd, diogelwch, lles ac yswiriant.

Rwyf hefyd yn cynorthwyo'r Gwasanaeth i wella rheoli risg a chydymffurfiaeth ar draws y sefydliad, gan sicrhau bod y Gwasanaeth yn gweithredu yn unol â'r holl ddeddfwriaeth, gofynion rheoleiddio ac arfer gorau sy'n ymwneud â'i weithgareddau. Rwy'n cynghori rheolwyr y Gwasanaeth ynglŷn â'r risgiau strategol o fewn y Gwasanaeth ac yn ymgymryd â gwaith sy'n gysylltiedig â Phortffolios Yswiriant y Gwasanaeth.

Mae gen i dros 30 mlynedd o brofiad, ac mae'r pedair blynedd diwethaf wedi bod yn y Gwasanaeth, yn datblygu a gwreiddio Evtix Assure ar draws y Gwasanaeth. Rwy'n gweithio gyda Dŵr Cymru ar brosiect i ddefnyddio dŵr wedi ei drin ag UV ar gyfer digwyddiadau tân ac, mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru, rydym wedi gallu gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth Cymru er mwyn gallu defnyddio'r ddarpariaeth hon. Mae hwn yn gam mawr, a'r gobaith yw y bydd y fenter hon yn cael ei defnyddio ledled y DU yn y dyfodol.

Rwy'n aelod o sawl Pwyllgor Iechyd a Diogelwch allanol ledled Cymru a'r DU ar gyfer IOSH.




**Alex Roberts**  
Pennaeth Risg Gorfforaethol

Helô, Alex, y Pennaeth Risg Gorfforaethol ydw i, ac rydw i wedi bod yn ymgymryd â'r rôl hon am y chwe blynedd diwethaf.

Gallaf ddweud â'm llaw ar fy nghalon nad yw unrhyw ddiwrnod yr un fath. Wedi dweud hynny, er ein bod ni'n dîm bach yn yr adran Risg Gorfforaethol, mae gen i dîm anhygoel, sy'n mynd y filltir ychwanegol yn gyson i sicrhau bod cyfrifoldebau cydymffurfio a rheoli risg y Gwasanaeth yn cael eu dilyn. Boed hynny'n gyfrifoldebau o dan y Ddeddf Yswiriant, i'n rhwymedigaethau amgylcheddol a diogelwch, i les a diogelwch ein staff, yn ogystal â sicrhau y gallwn ymateb i unrhyw argyfwng, hyd yn oed ar yr adegau mwyaf heriol, trwy ein cynllunio parhad busnes. Mae ein ffrydiau gwaith yn effeithio ar bob rhan o'r Gwasanaeth a phob aelod o staff.

Rydym wedi gweld llawer o newidiadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac rydym wedi parhau i weithredu Evtix Assure sef ein system reoli ar-lein, rydym wedi cefnogi'r ddarpariaeth dŵr o fewn yr amgylchedd gweithredol ac, wrth wneud hynny, wedi newid deddfwriaeth Cymru! Fe wnaif i adael i Seamus roi'r wybodaeth ddiweddaraf am hynny ac rydym yn gobeithio cyflwyno ein Map Ffordd Rheoli Carbon i weithio tuag at nod sero net uchelgeisiol Llywodraeth Cymru yn fuan iawn.

Mae'r tîm bob amser yn awyddus i lunio ein trefniadau rheoli risg i weddu orau i anghenion y Gwasanaeth, yn ogystal â'n cydweithwyr, ac rydym yn annog unrhyw adborth ar sut i wneud hynny wrth symud ymlaen.



**Mark Corker**  
Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Lles Dros Dro

Helô, Mark ydw i a fi yw'r Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Lles Dros Dro ers i mi ymuno â'r Gwasanaeth ym mis Ionawr, ar ôl dros ddegawd mewn Gweithgynhyrchu Modur yn gweithio mewn rolau arbenigol Iechyd, Diogelwch, Amgylchedd, Diogelu Data/Adnoddau Dynol a Rheoli Risg Busnes. Mae fy rôl yn hynod ddiddorol a gwerth chweil gan fy mod yn gweithio gyda llawer o adrannau eraill ac yn helpu'r Gwasanaeth i sicrhau diogelwch ei bersonél a chynnal ei ofynion deddfwriaethol. Mae'r Tîm Risg Gorfforaethol hefyd yn dîm gwych i weithio ynddo, ac mae hynny bob amser yn help.

Y tu allan i'r gwaith, rwy'n brysur gyda fy nwy ferch, fy mhartner ers 9 mlynedd a'm ci Cavachon. Mae gen i hefyd un mab sydd bellach yn oedolyn ac wedi "hedfan y nyth", ac rwy'n mwynhau treulio amser gydag e, yn enwedig yn sgil ei ddiddordeb yn y goruwchnaturiol. Rwy'n gwirfoddoli i'r uned Cadetiaid Môr a Morwrol Brenhinol Lleol yn Sir Benfro ac yn mwynhau darllen (llawer), hedfan dronau, ffotograffiaeth a gwersylla gwyllt, er mai cerddoriaeth yw fy mhrif ddiddordeb.





**Jess Millard**  
Rheolwr Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd

Helô, Jess ydw i, Rheolwr Cynaliadwyedd ac Amgylchedd y Gwasanaeth. Mae fy rôl yn cynnwys rheoli System Rheoli Amgylcheddol y Gwasanaeth, casglu ystadegau a gwybodaeth am ein hallyriadau, amcanion a phrosiectau amgylcheddol, a datblygu adroddiadau a mapiau ffordd i amlygu'r holl waith da yr ydym yn ei wneud tuag at gyflawni sero net ac i annog natur a bioamrywiaeth i ddychwelyd i'n safleoedd.

Mae gen i ddwy ferch ifanc, sydd wrth eu bodd yn mynd i wersylla ac i barciau antur, a gwneud llawer o 'lanast creadigol' i mi ei lanhau o dywod, paent a Play-Doh! Dwi'n caru gigs cerddoriaeth a chomedï ac yn aml yn mynd i wyliau cerddoriaeth mawr yn ystod yr haf gyda fy mhartner, Mark.



**Sarah Davies**  
Swyddog Iechyd, Diogelwch a Lles

Fy enw i yw Sarah Davies a fi yw'r Swyddog Iechyd, Diogelwch a Lles. Fy ngwaith i yw cynorthwyo a chefnogi'r Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Lles a chydlynu prosiectau iechyd a diogelwch.

Rwy'n treulio'r rhan fwyaf o'm hamser rhydd ar anturiaethau awyr agored gyda fy ngŵr Tom a'm dau o blant, Jimmy ac Ellie. Mae cariad at yr awyr agored yn rhywbeth y mae Tom a minnau'n ei rannu a gyda'n gilydd rydym wedi dringo mynyddoedd, ymweld â'r Svalbard yn yr Arctig, a marchogaeth ceffylau trwy Anialwch Nevada. Rwyf wedi cystadlu mewn llawer o ddigwyddiadau dygnwch, rwy'n parhau i geisio gwella fy ffitrwydd ac rwyf bob amser yn chwilio am fy antur nesaf.

Mae fy nheulu yn fy adnabod fel yr un oedd wastad yn cael damweiniau - erbyn i mi droi'n 11 oed roeddwn wedi cael llawer o ddamweiniau gan gynnwys cwmpo allan o gar oedd yn teithio ar 30mya, torri fy mraich a'm coes mewn dwy ddamwain marchogaeth a chael pwythau ar ddau achlysur gwahanol. Felly mae'r eironi o fynd i weithio i'r adran Iechyd a Diogelwch yn fy rhyfeddu!



**Jo Artis**  
Rheolwr Parhad Busnes a Diogelwch

Helo, Jo Artis ydw i ac rydw i wedi bod yn rhan o'r Gwasanaeth am 22 mlynedd.

Fy rôl yn yr Adran Risg Gorfforaethol yw'r Rheolwr Parhad Busnes a Diogelwch, sy'n cynnwys sicrhau bod y sefydliad yn barod ar gyfer digwyddiadau sy'n tarfu ar y gwasanaethau a ddarparwn trwy gynllunio ac ymarfer amrywiaeth o sefyllfaoedd.

Gweithiais y rhan fwyaf o'm gyrfa fel rhan o'r Wylfa Werdd yng Ngorsaf Dân Treforys, cyn symud i Orsaf Ganolog Abertawe fel Rheolwr Criw. Ers hynny, rydw i wedi bod yn hyfforddwr yn yr Adran Hyfforddi ac wedi gweithio fel Swyddog Cyswllt Gorsaf yn Rhanbarth y De.

Rydw i wedi bod yn briod â Dean fy ngŵr am saith mlynedd, er ein bod wedi bod gyda'n gilydd ers 19 mlynedd. Mae gennym bedwar o blant, pedwar o wyrion a phedwar ci, ac mae pob un ohonynt yn fy nghadw i'n brysur iawn!

Rydw i wrth fy modd yn treulio amser gyda fy nheulu a fy nghŵn, ac ar yr achlysuron prin hynny pan fydd gen i amser sbâr, rwy'n hoffi gwyllo cymaint o chwaraeon ag y gallaf.



**Ffion James**  
Cydylynydd Evotix-Assure

Shwmae. Fy enw i yw Ffion ac rydw i wedi bod yn gweithio i'r Gwasanaeth ers Awst 2018.

Fy rôl yn yr Adran Risg Gorfforaethol yw Cydylynydd Evotix-Assure Risg Gorfforaethol. Mae hyn yn cynnwys datblygu, gweithredu a darparu cymorth a chefnogaeth i gydweithwyr, gyda phopeth sy'n gysylltiedig ag Evotix-Assure. Yn ôl fy asesiad Colour Works, rwy'n felyn cryf, ac felly'n cael fy ystyried yn berson sy'n 'Ysbrydoli' Rhai o'r geiriau allweddol sy'n disgrifio melyn cryf yw - deinamig, brwdfrydig a chymdeithasol, a byddwn yn cytuno'n gryf â hynny. Byddai unrhyw un sy'n fy adnabod i'n dda yn fy nisgrifio fel rhywun egniol, angerddol a phositif.


Yn fy amser hamdden, rwy'n mwynhau gwranddo ar bob math o gerddoriaeth, gan gynnwys mynd i wyllo sioeau theatr gerddorol, padlfyrddio a threulio amser gyda ffrindiau agos a theulu. Rydw i hefyd yn hoffi bwyd ac wrth fy modd yn arbrofi ac yn rhoi cynnig ar fwydydd a blasau newydd. Brecinio, tapas neu wyl fwyd stryd, rydw i yno!



**Jessica Jenkins**  
Cynorthwydd Risg Gorfforaethol

Helô, Jess ydw i a fi yw'r Cynorthwydd Risg Gorfforaethol. Dechreuais weithio i'r Gwasanaeth yn Awst 2023.

Yn fy rôl i, rwy'n sicrhau yr ymdrinnir â'n holl ddamweiniau cerbyd yn ogystal â dirwyon parcio neu oryrru. Symudais o Gaerdydd yn ddiweddar, ac ar hyn o bryd rwy'n byw gyda fy mhartner a'n sbaniel dwy oed. O bryd i'w gilydd rwy'n darparu cyrsiau i'r gymuned fel rheoli straen, lles a gwneud dewisiadau da o ran bwydydd (cyrsiau Foodwise). Rwy'n mwynhau teithiau cerdded a threulio amser gyda fy nheulu a ffrindiau.



## CYNHADLEDD AR ALWAD

Cynhaliwyd Cynhadledd Ar Alwad gyntaf Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC), yn rhan o'r Rhaglen Gwella Ar Alwad (OCIP), ddydd Sul, Ebrill 28, ar Faes Sioe Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru yn Llanelwedd.

Cynlluniwyd y Gynhadledd o amgylch Personél Ar Alwad y Gwasanaeth ac i roi'r cyfle i glywed gan y rhai sy'n arwain y ffordd o ran gwella'r System Ddyletswydd Ar Alwad, o fewn GTACGC a chan sefydliadau allanol, megis Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân, Elusen y Diffoddwyr Tân a mwy. Roedd trosolwg hefyd o Gynllun Rheoli Risg Cymunedol newydd y Gwasanaeth, sydd wedi disodli proses cynllunio corfforaethol y Gwasanaeth, y Rhaglen Gwella Ar Alwad a'r adolygiad Darparu Hyfforddiant a Datblygu Pobl a Sefydliadol.

Nod y Gynhadledd oedd canolbwyntio a thrafod tirwedd Diffodd Tân Ar Alwad yn y dyfodol gan roi cyfle i gael gwell dealltwriaeth o wasanaethau arbenigol y Gwasanaeth, yn ogystal â sesiwn holi ac ateb i drafod cryfderau a gwendiau'r System Griwio Ar Alwad bresennol.



## EXCITING EVENTS AHEAD!



Yn amrywio o ddiwrnodau agored llawn gweithgareddau i olchi ceir a diwrnodau profiad, mae rhywbeth at ddant pawb

**31 Mai - Diwrnod Agored Pontarddulais**

**1 Mehefin - Her Diffoddwyr Tân Cymru**

**1 Mehefin - Show and Tell Day Castell Newydd Emlyn**

**15 Mehefin - Diwrnod Profiad y Trallwng**

**15 Mehefin - Golchfa Ceir Hwlfordd**

**19 Mehefin - Y Drenewydd Diwrnod Profiad**

**24 Mehefin - Y Gelli Gandryll Noson Recriwtio**

**29 Mehefin - Golchfa Ceir Llandeilo**

**11 Gorffennaf - Diwrnod Profiad Hwlfordd**

**13 Gorffennaf - Diwrnod Agored Port Talbot**

**31 Gorffennaf - Diwrnod Agored Doc Penfro**

Mae yna groeso cynnes i bawb yn ein digwyddiadau cymunedol, gan gynnig cyfle gwych i chi gysylltu â'ch diffoddwyr tân lleol a chefnogi'r digwyddiadau a arweinir gan y gorsafodded.

Nodwch y dyddiadau yn eich calendrau a chadwch olwg ar ein tudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol i gael y newyddion diweddaraf a manylion am y digwyddiadau.

Peidiwch da chi â cholli allan ar y cyffro - dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol a gwahoddwch eich ffrindiau a'ch teulu.

**Dilynwch ni ar**



## NEWYDDION GORSAFOEDD

# DIGWYDDIAD 'CYSYLLTU AR GYFER' YNG NGORSAF DÂN Y DRENEWYDD

Ddydd Mercher, Ebrill 24, cynhaliodd Gorsaf Dân y Drenewydd yr ail ddigwyddiad Cysylltu Ar Gyfer' blynyddol, sy'n rhoi cyfle i sefydliadau lleol gyda'r nod cyffredinol o wella darpariaeth gwasanaethau, lleihau risg, cefnogi iechyd a lles a deall rhai o'r blaenoriaethau ar gyfer rheoleiddwyr.

Daeth 33 o bobl i'r digwyddiad o sefydliadau o bob rhan o Bowys a Cheredigion i ailgadarnhau'r perthnasoedd proffesiynol a grëwyd yn y digwyddiad y llynedd.



## NEWYDDION GORSAFOEDD

# GOLCHFA CEIR BLYNYDDOL GORSAF DÂN ABERYSTWYTH

Ddydd Sadwrn, Mai 18fed, cynhaliodd aelodau'r criw yng Ngorsaf Dân Aberystwyth eu golchfa ceir elusennol blynyddol a chodwyd cyfanswm arbennig o £1,272!

Eleni, bydd elw'r olchfa ceir yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng dau achos teilwng, sef [Elusen y Diffoddwyr Tân](#), sy'n rhoi cymorth gydol oes i aelodau gwasanaethau tân ac achub y DU a'r rhai sydd wedi ymddeol, a [Tŷ Hafan](#), sy'n cefnogi teuluoedd â phlant sydd â chyflyrau sy'n byrhau eu bywydau.

Yn ymuno â chriw Aberystwyth i olchi cymaint o gerbydau â phosib drwy gydol y dydd oedd y teulu Humphreys. Mae Cerys, Andrew, Maisie a Nel yn ymgymryd â heriau a digwyddiadau amrywiol er mwyn codi arian ar gyfer Tŷ Hafan, ar ôl y gefnogaeth y mae'r teulu wedi'i derbyn gan yr elusen hosbis yn dilyn diagnosis Nel o Syndrom Wolf-Hirschhorn, sef clefyd cromosom prin sy'n byrhau bywyd ac sy'n effeithio ar 1 o bob 50,000 o bobl.





# GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU YN RHAN O GONFOI MWYAF ERIOED GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB Y DU

Yn ddiweddar, gwirfoddolodd naw aelod o bersonél Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru eu hamser i ddanfon tair injan dân ac offer i Wcráin fel rhan o gonfoi mwyaf erioed Gwasanaethau Tân ac Achub y DU.

Roedd maint y confoi yn ddigynsail, gan ei fod yn cynnwys 33 o gerbydau tân ac achub, dau gerbyd peirianwyr a dros 2,800 o ddarnau o offer a roddwyd gan Wasanaethau Tân ac Achub y DU ac a gefnogwyd gan y Swyddfa Gartref.

Mae gwasanaethau tân ac achub Wcráin wedi cael eu dinistrio i raddau helaeth gan effaith y rhyfel ac mae'r gofynion arnynt wedi cynyddu'n aruthrol.





## GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH ER MWYN DIOGELU BYWYD GWYLLT A CHEFN GWLAD RHAG TANAU

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) wedi bod yn gweithio'n agos gyda Wardeniaid o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yn ogystal â thirfeddianwyr a phorwyr, i greu rhwystrau tân cyn misoedd yr haf.

Bob blwyddyn mae tanau'n gyfrifol am ddinistrio miloedd o hectarau o diroedd cefn gwlad, manau agored a chynefinoedd bywyd gwyllt, ac yn ddiweddar bu aelodau o dimau GTACGC a [Bannau Brycheiniog](#) yn creu rhwystrau tân yn ardal y Mynydd Du.

Mae rhwystrau tân yn elfennau hanfodol wrth amddiffyn bywyd gwyllt a chefn gwlad rhag tanau gwyllt. Bylchau neu ardaloedd o lystyfiant wedi'u clirio sydd wedi'u lleoli'n strategol er mwyn atal tân rhag lledaenu yw'r rhwystrau tân. Trwy greu rhwystr, mae rhwystrau tân yn helpu i atal tanau gwyllt rhag difa ardaloedd helaeth o dir, a thrwy hynny maen nhw'n diogelu cynefinoedd bywyd gwyllt a lleihau difrod i'r amgylchedd naturiol.

Nid yn unig maen nhw'n arafu lledaeniad tanau gwyllt, mae rhwystrau tân hefyd yn bwyntiau mynediad i ddiffoddwyr tân, gan ganiatáu iddynt reoli tanau yn well a'u diffodd cyn iddynt waethygu.



## CANMOLIAETH YR UCHEL SIRYF AR GYFER STAFF GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

Yn gynharach eleni, derbyniodd dau aelod o staff Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru Ganmoliaeth gan Uchel Siryf Dyfed.

Cafodd y Rheolwr Gwyflfa Steve Jones a'r Swyddog Addysg Cymunedol Elinor Goldsmith eu cydnabod am eu gwasanaeth eithriadol i'r gymuned gan Uchel Siryf Dyfed ar y pryd, Meurig Raymond CBE.

Yng nghwmni Arglwydd Raglaw Dyfed a'r cyn-gyflwynydd newyddion ar gyfer y BBC, Sara Edwards, cynhaliwyd seremoni gyflwyno arbennig yng Ngwesty Gwledig Crug Glâs yn Sir Benfro ddydd Sadwrn, 16 Mawrth.

### Elinor Goldsmith Swyddog Addysg Cymunedol

Ar hyn o bryd mae Elinor yn ei 26ain flwyddyn o weithio yn GTACGC, ar ôl ymuno ym mis Mawrth 1999, ac mae wedi bod yn gweithio yn nhîm Diogelwch Tân Cymunedol y Gwasanaeth ers dros 22 mlynedd.

Fel rhan o'i rôl, mae Elinor yn ymweld â nifer fawr o ysgolion ar draws ardal y Gwasanaeth bob blwyddyn, gan ddarparu gwybodaeth am ddiogelwch tân a lleihau tanau bwriadol i oddeutu 12,000 o blant ysgol bob blwyddyn.

Mae Elinor yn cael ei chydabod yn lleol fel model rôl go iawn, ac mae pawb yn ei hadnabod fel 'Elinor Tân'. Mae hi'n aml yn cael ei hadnabod gan blant, rhieni ac athrawon y mae hi wedi gweithio gyda nhw wrth gyflwyno ei sesiynau diddorol, addysgiadol ac ysbrydoledig.

Yn ogystal â'i hymweliadau ysgol, mae Elinor hefyd yn cynnal ymweliadau Diogel ac Iach ar ran y Gwasanaeth drwy gydol y flwyddyn, sy'n cynnwys gosod larymau mwg, gwybodaeth diogelwch tân yn y cartref, ymwybyddiaeth sgamiau, mynd i'r afael ag unigrwydd a mwy.

Wrth siarad am dderbyn ei Chanmoliaeth gan yr Uchel Siryf, dywedodd Elinor:

*"Rwyf wedi cofleidio fy rôl fel Swyddog Addysg Cymunedol dros y 22 mlynedd diwethaf ac rwy'n dal i fwynhau cyflwyno a dysgu negeseuon diogelwch tân i'r genhedlaeth nesaf a fydd yn cyfrannu tuag at gymunedau mwy diogel yn ardal ein Gwasanaeth.*

*Mae'n anrhydedd mawr i mi gael fy nghydnabod gan yr Uchel Siryf am wasanaethau i'r gymuned ac edrychaf ymlaen at gynnal lefelau uchel o ymgysylltu ag ysgolion lleol!"*



# GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU YN MYNYCHU PRIDE ABERTAW 2024

Ymunodd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) â dathliadau lliwgar Pride Abertawe ddydd Sadwrn, Mai 18.

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth wraidd yr hyn y mae GTACGC yn ei wneud ac maent yn werthoedd sydd wrth wraidd ein prosesau, ein

harferion a'n diwylliant sefydliadol. Roedd yn bleser felly dangos ein cefnogaeth a mynychu dathliad blynyddol Pride Abertawe o'r gymuned LGBTQ+.

Roedd y diwrnod yn cynnwys gorymdaith trwy ganol y dref yn ogystal â cherddoriaeth fyw, stondinau masnachwyr, a digon o fwyd a lluniaeth yn Neuadd y Dref a Neuadd Brangwyn.

Roedd Peiriant Tân Pride GTACGC, ychwanegiad lliwgar i fflyd hyfforddi'r Gwasanaeth, yn rhan o Orymdaith Pride Abertawe a chymerodd aelodau o'r Tîm Diogelwch Cymunedol ran yn y digwyddiad hefyd.

Yn dilyn yr orymdaith, roedd aelodau o Dîm Diogelwch Cymunedol y Gwasanaeth a chriw Gorsaf Dân Abertawe wrth law ar eu stondin i gynnig cyngor a gwybodaeth am ddiogelwch tân, yn ogystal â dosbarthu nwyddau Pride lliwgar GTACGC.

Roedd yn ddiwrnod llwyddiannus a heulog iawn! Edrychwn ymlaen at fynychu Pride Abertawe 2025.



## HYFFORDDI



## TIMAU CHWILIO AC ACHUB Y DU YN YMGYNNULL AR GYFER YMARFERION HYFFORDDI YN NE CYMRU

Yn ddiweddar, daeth aelodau timau chwilio ac achub domestig a rhyngwladol y DU at ei gilydd i gynnal hyfforddiant arbenigol iawn ym mhrifddinas Cymru.

Mae timau Chwilio ac Achub Trefol (USAR) a Chwilio ac Achub Rhyngwladol (ISAR) fel arfer yn cael eu defnyddio yn sgil digwyddiadau megis trychinebau naturiol neu weithredoedd terfysgol, ac maent yn gyfrifol am ddod o hyd i bobl sy'n sownd a'u rhyddhau.

Rhwng dydd Llun yr 22ain o Ebrill a Dydd Mercher y 24ain o Ebrill, bu timau o bob rhan o'r DU yn ymgynnull yng Nghaerdydd a Chaerloyw ar gyfer ymarferion hyfforddi, gan deithio o ganolfannau'r gwasanaeth tân yn Swydd Essex, Swydd Caint, Hampshire, Swydd Gaerhirfryn, Swydd Lincoln, Glannau Mersi, Gorllewin Canolbarth Lloegr, yr Alban, De Cymru, a Chanolbarth a Gorllewin

## TÎM DIOGELWCH CYMUNEDOL YN CAEL HYFFORDDIANT DIOGELWCH DWR

Ddydd Llun, 22 Ebrill, daeth aelodau tîm Diogelwch Cymunedol Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) ynghyd i gael hyfforddiant Diogelwch Dŵr ar afon Teifi yn Llandysul.



Trefnwyd y sesiwn gan y rheolwr Hyfforddi Achub Technegol, Darren Wilson, ac fe'i rhannwyd yn ddwy sesiwn. Yn y bore, cafwyd cyflwyniad gan ymatebydd cyntaf GTACGC sydd wedi cael hyfforddiant Achub o Ddŵr sy'n Llifo'n Gyflym, a oedd yn trafod pwysigrwydd diogelwch dŵr, y peryglon cyffredin a geir mewn dŵr, technegau atal boddi, a dulliau sylfaenol i achub eich hun ac eraill o ddŵr.

Darllenwch y manylion yma: [Community Safety Team Dives into Water Safety Training \(mawfire.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/news/team-dives-into-water-safety-training)



## YMARFERIAD MYRDDIN

**Ar Ebrill 23, 2024, aeth nifer o griwiau Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i gymryd rhan mewn ymarferiad hyfforddi amlasiantaethol ar raddfa fawr a gynhaliwyd mewn gwahanol leoliadau yn ardal Caerfyrddin.**

Roedd y sesiwn hyfforddi, o'r enw Ymarferiad Myrddin, yn cynnwys nifer o efelychiadau o lifogydd dros ardal eang, ac roedd angen i griwiau Dinbych-y-pysgod, Hwlfordd, Caerfyrddin a Doc Penfro ymateb iddynt, yn ogystal â chriwiau o Dîm Achub Mynydd Gorllewin y Bannau, Gwylwyr y Glannau Llansteffan, Bad Achub Glanyfferi a Bad Achub Casllwchwr.

Ymunodd yr asiantaethau hyn i gyd i brofi eu hymateb cyfun i achub o lifogydd dros ardal eang. Roedd hyn yn galluogi'r gwasanaethau brys i brofi eu hymatebion strategol a thactegol, yn ogystal â

gwerthuso pa mor dda y maent yn cyfathrebu â'i gilydd mewn digwyddiadau ar raddfa fawr.

Cefnogodd gwirfoddolwyr y Tîm Ymateb Cyflym y digwyddiad gyda phaneidiau o de a choffi yn ogystal â'u byrgyrs enwog, ac roedd yna groeso mawr i'r bwyd a'r diodydd gan fod y criwiau yn oer, yn llwglyd ac yn sychedig wedi'r ymarferiad.

Rhoddodd y digwyddiad gyfle hefyd i Dîm Drôn GTACGC brofi defnyddio'r drôn mewn sefyllfa chwilio ac achub. Roedd hyn yn cynnwys ffrydio fideo a delweddau i'r Ystafell Rheoli Argyfwng, a oedd yn helpu i sicrhau bod y diffoddwyr tân mor ddiogel â phosibl, ond hefyd yn rhoi ymwybyddiaeth ychwanegol o'r sefyllfa i reolwyr digwyddiadau a'r wybodaeth weledol ddiweddaraf.

### **Mae Eich Cymuned Eich Angen Chi!**

Os hoffech chi chwarae rhan i gadw'ch cymuned yn ddiogel, dysgwch fwy am sut i ddod yn [Ddiffoddwr Tân Ar Alwad yma](#).



### **Nicholas Rees, Rheolwr Gwylfa Hwlfordd, oedd yn gyfrifol am gyfarwyddo Ymarferiad Myrddin, a dywedodd:**

"Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi ymrwmo i weithio gyda'n partneriaid i sicrhau ymateb effeithiol wrth ymdrin ag ystod eang o ddigwyddiadau. Roedd Ymarferiad Myrddin a gynhaliwyd ym mis Ebrill yn profi ein hymateb i ddigwyddiad llifogydd mawr a oedd yn effeithio ar ardal ddaearyddol eang.

Roedd yr ymarferiad yn canolbwyntio ar ddod â thimau arbenigol o sawl asiantaeth gan gynnwys Achub Mynydd Gorllewin y Bannau, Gwylwyr y Glannau, a Bad Achub Annibynnol Glanyfferi a Chasllwchwr at ei gilydd. Roedd yn wych gweld y timau hyn yn gweithio drwy'i gilydd ochr yn ochr â'n timau achub dŵr arbenigol ni. Mae ymarferion amlasiantaethol fel hyn yn golygu ein bod yn dod i ddeall ein galluoedd ein gilydd yn well ac yn cryfhau ein hymateb.

Hoffwn ddiolch i'r holl asiantaethau a ddaeth i'r digwyddiad, ynghyd â phersonél o'r Ystafell Reoli Tân ar y Cyd a'r Tîm Ymateb Cyflym am ddarparu bwyd a lluniaeth!"



## CHWARAEON A CHYMDEITHASU

# DEWCH YN AELOD O GLWB CHWARAEON A CHYMDEITHASOL GTACGC HEDDIW!

Mae gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) ei Glwb Chwaraeon a Chymdeithasol ei hun. Os ydych chi'n aelod presennol o'r Gwasanaeth neu wedi ymddeol ohono, mae croeso i chi ymuno.

Mae'r Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol yn llwyfan ar gyfer cadw'n heini, cymdeithasu a chael hwyl. Ar hyn o bryd mae'n cynnwys amrywiaeth o adrannau y gallwch ymuno â nhw, gan gynnwys:



ROWNDERI  
ROUNDERS



CLWB CRICED  
CRICKET CLUB



CLWB BOWLIO  
BOWLS CLUB



CLWB BEICIO  
CYCLING CLUB



CLWB PYSGOTA PLY  
FLY FISHING CLUB



CLWB PÊL DROED  
FOOTBALL CLUB



CLWB GOLFF  
GOLF CLUB



FFOCWS  
CHWARAEON  
MENYWOD  
FEMALE  
SPORTS FOCUS



CLWB RYGBI  
RUGBY CLUB



CLWB TRIATHLON  
TRIATHLON CLUB



CLWB FFITRWYDD  
FITNESS CLUB

Dyma'r logos swyddogol ar gyfer clybiau Chwaraeon a Chymdeithasol - am unrhyw ymholiadau logo cysylltwch â'n tîm graffeg

Rydym yn hollol gefnogol o ddechrau adrannau newydd, felly os nad ydych yn gweld camp neu weithgaredd cymdeithasol yr ydych yn ei fwynhau, beth am gysylltu â ni, a dechrau eich adran eich hun?

Dewch yn rhan o'r Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol am ddim ond £2 y mis a chynorthwyo i gynnal ein holl adrannau.

Am fwy o wybodaeth am sut i ymuno, e-bostiwch Steven Philpot - [s.philpott@mawwfire.gov.uk](mailto:s.philpott@mawwfire.gov.uk)



## Y MIS MAI HWN RYDYM YN CANOLBWyNTIO AR FOWLIO FEL RHAN O'N HYMGYRCH I DDYSGU MWY AM GLYBIAU CHWARAEON A CHYMDEITHASOL GTACGC.



Eddie Williams

Cafodd yr Adran Bowlio ei ffurfio yn 1990 o dan Gymdeithas Chwaraeon ac Athletau Powys (SAA). Daeth yn SAA Dyfed/Powys yng nghanol y 90au cyn dod yn Glwb Chwaraeon a Chymdeithasol Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) yn 1998.

Cytunwyd ar gyfansoddiad Adran Bowlio GTACGC ar 30 Ebrill 1999. Cafodd Eddie Williams, cyn Is-swyddog â gofal diffoddwyr tân ar alwad yng ngorsaf Llandrindod, ei benodi'n ysgrifennydd y clwb. Mae gan Eddie gopi o'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) cyntaf a gafodd ei gynnal ym Mhencadlys y Frigâd ar 1 Mai 1998 ac mae'n ysgrifennydd yr Adran Bowlio hyd heddiw!

Mae aelodau'r tîm bowlio yn cystadlu yn erbyn timau o Loegr, Iwerddon a'r Alban yng **Nghystadleuaeth y Pedair Gwlad**. Mae Cymru wedi bod yn bencampwr y gystadleuaeth am y 2 flynedd diwethaf ac mae'r tîm wedi ennill y gystadleuaeth gyffredinol 10 gwaith yn y 35 mlynedd ers i'r gystadleuaeth gyntaf gael ei chynnal yn Great Yarmouth yn 1989. Mae Cystadleuaeth y Pedair Gwlad yn cael ei chynnal bob blwyddyn mewn gwahanol leoliadau yn y DU. Eleni, mae'r tîm yn cystadlu yng Nghlwb Bowlio Irvine yn yr Alban rhwng 6 a 8 Medi.

Cafodd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Bowlio diweddaraf ei gynnal ym mis Ebrill. Doedd dim newid swyddogion y tro hwn a chytunwyd y byddai cystadleuaeth parau/grwpiau o dri'r Gwasanaeth yn cael ei chynnal yng **Nghlwb Bowlio Llandrindod** Ddydd Llun 15 Gorffennaf yn dechrau am 10.00am.

Mae ymuno â'r tîm Bowlio yn gyfle gwych i gymryd rhan mewn camp sy'n cyfuno strategaeth, sgîl a chyfeillgarwch!

Mae Bowlio yn fwy na champ, mae'n weithgaredd cymdeithasol hefyd! Byddwch yn cael y cyfle i gwrdd â phobl newydd, gwneud ffrindiau, a mwynhau'r gymuned gefnogol sy'n datblygu pan ydych chi'n rhan o dîm. Felly, p'un a ydych chi'n ifanc neu'n dal yn ifanc eich ysbryd, mae Bowlio yn gamp y gall unrhyw un ei mwynhau. Nid yw'n gamp sy'n cael effaith fawr ar y corff, felly mae'n addas i bobl o bob lefel ffitrwydd ac oedran.

Ymunwch ag Adran Bowlio GTACGC HEDDIW! Ar gael i holl weithwyr y Gwasanaeth gan gynnwys gwirfoddolwyr, gweithwyr amser llawn, gweithwyr ar alw, staff cymorth ac aelodau sydd wedi ymddeol. Cysylltwch ag ysgrifennydd y Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol, Steven Philpott ar [s.philpott@mawwfire.gov.uk](mailto:s.philpott@mawwfire.gov.uk) i gael mwy o wybodaeth.



## GWEITHIO GYDA NI!

Pan fydd pobl yn meddwl am yrfa yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, maen nhw'n tueddu meddwl am Ddiffoddwyr Tân yn ymateb i ddigwyddiadau brys, ond nid Diffoddwyr Tân yn unig sy'n gwneud canolbarth a gorllewin Cymru yn lle mwy diogel.

Y tu ôl i'r sefyllfa weithredol, mae gan y Gwasanaeth ystod eang o swyddi eraill mewn gwahanol adrannau sydd naill ai wedi'u lleoli mewn swyddfa neu yn ein gweithdai, ac rydym yn cyflogi pobl mewn swyddi proffesiynol, technegol a gweinyddol.

**GWELD SWYDDI GWAG CYFREDOL >**

## BUDDION

- Cyfraddau cyflog cystadleuol
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- Gwyliau Blynyddol hael - 26 diwrnod ynghyd â gwyliau banc, gan gynyddu hyd at 33 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o gyflogaeth.
- Cynllun Hyblyg
- Mynediad i gynllun disgownt Cerdyn Golau Glas
- Cynllun Aberthu Cyflog Prydlesu Ceir
- Clwb Chwaraeon a Chlwb Cymdeithasol
- Parcio am ddim ar y safle
- Beico i'r Gwaith
- Cynllun disgownt i staff
- Iechyd a Lles

**A LLAWER MWY!**



**AR ALWAD**  
Recriwtio Diffoddwyr Tân  
**ON CALL**  
Firefighter Recruitment

# DIFFODDWYR TÂN AR ALWAD - MAE ANGEN CHI ARNOM!



Ydych chi'n byw o fewn 5-10 munud i'ch Gorsaf Dân leol?  
Ar hyn o bryd mae gennym ni swyddi gwag ar gyfer diffoddwyr tân ar alwad - ewch draw i'n gwefan i ddarganfod mwy!





Gwasanaeth Tân ac Achub  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales  
Fire and Rescue Service

**#MwyNaDimOndTanau**  
**#MoreThanJustFires**



[www.tancgc.gov.uk](http://www.tancgc.gov.uk)

CYLCHGRAWN CALON TÂN - MAI 2024